

Cynnig i ffedereiddio Ysgol Gynradd Llangain, Ysgol Gynradd Llansteffan ac Ysgol Gynradd Bancyfelin

Dogfen Ymgynghori



sirgar.gov.uk

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Yr Adain Moderneiddio Ysgolion

Sara Griffiths, Rheolwr y Tîm Moderneiddio

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant

E-bost: aaprma@sirgar.gov.uk

Ffôn: 01267 246476

Rhagair

Mae cyfrifoldeb statudol ar Gyngor Sir Caerfyrddin i gynllunio ar gyfer darpariaeth ysgol, ynghyd â cyfrifoldeb cyfreithiol i adolygu nifer a math yr ysgolion sydd ganddo yn ei ardal ac a yw'n llwyddo ai peidio i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddarparu'r cyfleoedd y mae dysgwyr yn eu haeddu.

Yn unol ag amcan polisi Llywodraeth Cymru o hyrwyddo cydweithio rhwng pob rhan o'r system addysg i wella deilliannau, mae Strategaeth Ffedereiddio Ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod bod angen ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau cynaliadwyedd, gwella cyrhaeddiad dysgwyr a rhannu arfer gorau.

Mae ysgolion wedi gallu ffedereiddio ers 2010 gan ddefnyddio'r broses a nodwyd yn Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir ac Amrywiol Newidiadau (Cymru) 2010. Bu i'r broses Ffedereiddio ysgolion a gynhelir yng Nghymru ddisodli Rheoliadau Ffedereiddio 2010 ar 22 Mai 2014, a hefyd roi'r grym i Awdurdodau Lleol ffedereiddio ysgolion. Mae'r canllawiau presennol yn nodi sut gall Awdurdodau Lleol, yn ogystal â chyrrff llywodraethu, ffedereiddio ysgolion, a sut gall ffederasiynau gael eu cynnig, eu sefydlu a'u ffurfio.

Er mwyn cefnogi Strategaeth Ffedereiddio Sir Gaerfyrddin a'r amcanion cenedlaethol o sicrhau amgylcheddau dysgu cynaliadwy; gwella deilliannau dysgwyr; a gwella'r manteision y mae disgyblion yn eu cael drwy eu lleoliad addysgol, mae'r ddogfen ymgynghori hon yn nodi'r cynnig o ran sefydlu ffederasiwn rhwng **Ysgol Gynradd Llangain, Ysgol Gynradd Llansteffan ac Ysgol Gynradd Bancyfelin.**

Bydd yr ymgynghoriad yn dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru fel y'u nodir ym [mhroses Ffedereiddio ysgolion a gynhelir yng Nghymru – Canllawiau i gyrrff llywodraethu ac awdurdodau lleol](#) a bydd yn cynnwys partïon â diddordeb a nodwyd. Bwriedir i'r wybodaeth a geir yn y ddogfen hon egluro'r cynigion ynghylch eich ysgol a chynorthwyo'r broses ymgynghori.



Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Beth yw Ffederasiwn?	4
Amodau ar gyfer Ffederasiwn Ilwyddiannus	5
Manylion sy'n destun cynnig Ffedereiddio	6
Y Cefndir a'r Sbardunau ar gyfer newid	8
Y Cynnig	10
Beth mae Ffedereiddio yn ei olygu i'n hysgol?	10
Cyfansoddiad arfaethedig y Corff Llywodraethu sengl newydd	10
Arwain a Staffio	12
Trefniadau Derbyn	13
Y Broses Ffedereiddio	14
Yr Amserlen Arfaethedig	17
Manteision ac Anfanteision Ffedereiddio	18
Astudiaeth Achos	20
Cwestiynau Cyffredin	21

Cyflwyniad

Yn Sir Gaerfyrddin rydym yn ymdrechu i roi'r profiad addysg gorau posibl i'n dysgwyr. Un ffordd o sicrhau bod pob ysgol yn gallu darparu dysgu o'r safon uchaf i ddisgyblion Sir Gaerfyrddin yw drwy gydweithio. Ystyrir mai ffedereddio ysgolion yw'r prif ddull ar gyfer sicrhau bod gweithio partneriaeth ffurfiol yn digwydd rhwng ysgolion i wella perfformiad. O'r herwydd, diben y Ddogfen Ymgynghorol hon yw amlinellu cynnig yr Awdurdod Lleol i sefydlu ffederasiwn ffurfiol rhwng **Ysgol Gynradd Llangain, Ysgol Gynradd Llansteffan ac Ysgol Gynradd Bancyfelin.**

Beth yw Ffederasiwn?

Mae'r term 'ffederasiwn' yn disgrifio cytundeb ffurfiol a chyfreithiol, lle mae mwy nag un ysgol, ac nid mwy na chwech, yn rhannu trefniadau llywodraethu ac yn cael corff llywodraethu sengl.

Gellir crynhoi nodweddion allweddol ffederasiwn fel a ganlyn:

- Sefydlu un corff llywodraethu fydd â goruchwyliaeth strategol dros bob ysgol yn y Ffederasiwn;
- Mae pob ysgol yn cadw ei henw, ei chategori, ei chyllideb, a'i staff ei hun ac mae'n aros yn ei chymuned;
- Mae pob ysgol yn cael ei harolwg Estyn ei hun, er bod modd trefnu bod y rhain yn digwydd ar yr un pryd.
- Gall Corff Llywodraethu ffederasiwn ddefnyddio ei gyllideb, ei adnoddau a'i staff ledled y ffederasiwn er mwyn gwella'r ddarpariaeth addysg i bob disgybl.

Amodau ar gyfer Ffederasiwn Ilwyddiannus

Bydd ffederasiwn Ilwyddiannus yn galluogi'r disgyblion i fanteisio ar gwricwlwm ehangach i gyfoethogi eu profiadau a darparu addysg o safon uchel i helpu i wella eu cyrhaeddiad.

Mae arweinyddiaeth glir a strwythurau rheoli yn allweddol i ffederasiwn Ilwyddiannus, er mwyn sefydlu gweledigaeth a rennir a nod cyffredin o ran yr hyn mae angen ei wneud i wella cyrhaeddiad.

Er mwyn i ffederasiwn lwyddo, rhaid i bob ysgol ymrwymo amser ac adnoddau i gynnal a datblygu'r ffederasiwn. Dylai ysgolion ddangos parodrwydd i weithio fel grŵp a gwneud pethau'n wahanol er budd disgyblion.

Dylai'r system ffedereiddio greu ymdeimlad o hunaniaeth a rennir rhwng ysgolion a sicrhau bod unrhyw newidiadau sy'n ymwneud â Ffedereiddio yn cael eu cyfleu'n effeithiol i'r holl rieni a staff.

Manylion ysgolion sy'n destun cynnig Ffedereiddio

		Ysgol Gynradd Llangain,	Ysgol Gynradd Llansteffan,	Ysgol Gynradd Bancyfelin,
Lleoliad yr Ysgol		Llangain, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA33 5AE	Llansteffan, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA33 5LN	Bancyfelin, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA33 5ND
Ystod Oedran		3-11	4-11	4-11
Categori'r Ysgol (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir)		Cymunedol	Cymunedol	Cymunedol
Categori Iaith		Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg
Nifer y disgyblion ar y gofrestr (Ionawr 2020)	Meithrin	5	1	1
	Derbyn – B.6	36	34	38
	Cyfanswm	41	35	39
Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol	Ionawr 2019	36	40	43
	Ionawr 2018	31	37	35
	Ionawr 2017	32	32	40
	Ionawr 2016	25	34	41
	Ionawr 2015	27	32	34
Amcanestynia dau o Nifer y Disgyblion	Ionawr 2021	44	33	41
	Ionawr 2022	43	34	42
	Ionawr 2023	49	36	39
	Ionawr 2024	53	33	39
	Ionawr 2025	55	34	42
	Ionawr 2026	51	34	41
Nifer y lleoedd (yn cynnwys meithrin)		61	62	64

Nifer y lleoedd (ac eithrio meithrin)	54	56	56
Cost fesul disgybl	£4,547	£4,733	£4,520
Cyllideb Ysgol (2020-21)	£182,000	£166,000	£176,000
Canlyniad Arolygiad Estyn	ESTYN	ESTYN	ESTYN
Categori Cyflwr Adeilad	A	B	C

Gradd Cyflwr Adeilad:

Gradd A	Da. Perfformio fel y bwriadwyd ac yn gweithredu'n effeithlon
Gradd B	Bodddhaol. Perfformio fel y bwriadwyd ac yn gweithredu'n effeithlon
Gradd C	Gwael. Arddangos diffygion mawr a/neu ddim yn gweithredu fel y bwriadwyd
Gradd D	Gwael. Oes wedi dod i ben a/neu risg ddifrifol o fethiant ar ddigwydd

Y Cefndir a'r Sbardunau ar gyfer Newid


Mae Ysgol Gynradd Llansteffan ac Ysgol Gynradd Llangain wedi rhannu pennaeth ers Ebrill 2013 ac ers mis Medi 2016 mae Ysgol Gynradd Bancyfelin, Ysgol Gynradd Llangain ac Ysgol Gynradd Llansteffan wedi rhannu'r un pennaeth.

Maent wedi cydweithio drwy'r canlynol:

- Rhannu cymorth gweinyddol
- Rhannu Pennaeth
- Mae disgyblion CA2 yn dod ynghyd unwaith yr wythnos ar gyfer gwersi addysg gorfforol a cherddoriaeth, gan rannu arbenigedd athrawon.
- Gwneir cynllunio tymor hir a thymor canolig ar draws y tair ysgol gydag athrawon yn mapio sgiliau a gweithgareddau.
- Mae'r safonau a'r ddarpariaeth yn cael eu monitro ar draws y tair ysgol.
- Rhannu Hyfforddiant mewn Swydd.
- Rhannu cyfarfodydd staff.
- Teithiau ysgol a rennir.
- Rhannu gweithdai e.e. Welsh Whisperer, gweithdai hanes - Mewn Cymeriad.

Mae'r cydweithio helaeth a pharhaus rhwng y tair ysgol yn dangos perthynas waith dda a fydd yn sylfaen gadarn i'r ffederasiwn.

Lleoliad Ysgol Gynradd Llangain, Ysgol Gynradd Llansteffan ac Ysgol Gynradd Bancyfelin



Mae'r tair ysgol o fewn radiws o 9.4 milltir yn unig.

Mae Llangain a Llansteffan 4.5 milltir oddi wrth ei gilydd, a'r amser teithio yw tua 9 munud

Mae Llangain a Bancyfelin 5.5 milltir oddi wrth ei gilydd, a'r amser teithio yw tua 12 munud

Mae Llansteffan a Bancyfelin 9.4 milltir oddi wrth ei gilydd, a'r amser teithio yw tua 21 munud

Drwy lunio ffederasiwn, gall y tair ysgol weithio gyda'i gilydd o dan arweinyddiaeth a rennir i ddefnyddio eu cryfderau i wella safonau ar draws y ffederasiwn a, chydai gilydd, ymdrin â meysydd y mae angen eu gwella. Drwy ffedereiddio o dan un corff llywodraethu, gellir gwella ymhellach yr hinsawdd o ymddiriedaeth, bod yn agored a pharodrwydd i gydweithio sydd eisoes yn bodoli. Mae'r dull cydweithredol hwn yn dal i fod ar waith ac yn parhau i gael effaith gadarnhaol ar y tair ysgol.

Y Cynnig

Y cynnig a nodir yn y Ddogfen Ymgynghorol hon yw sefydlu ffederasiwn ffurfiol rhwng Ysgol Gynradd Llangain, Ysgol Gynradd Llansteffan ac Ysgol Gynradd Bancyfelin.

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, daw'r ffederasiwn i rym ar 1 Medi 2021.

Os caiff y cynnig hwn ei weithredu, byddai corff llywodraethu sengl â chyfansoddiad newydd (Corff Llywodraethu'r Ffederasiwn) yn cymryd lle'r tri chorff llywodraethu presennol.

Enw arfaethedig y ffederasiwn fyddai "Ffederasiwn Ysgol Gynradd Llangain, Ysgol Gynradd Llansteffan ac Ysgol Gynradd Bancyfelin". Os caiff ei gymeradwyo, bydd gan y corff llywodraethu ffederal hawl i ffurfioli enw ar gyfer y ffederasiwn.

Beth mae Ffedereiddio yn ei olygu i'n hysgol?

Gan fod Ysgol Gynradd Llangain, Ysgol Gynradd Llansteffan ac Ysgol Gynradd Bancyfelin yn rhannu'r un Pennaeth a bod corff llywodraethu y tair ysgol wedi cydweithio yn ystod y blynyddoedd diwethaf sy'n parhau i gael effaith gadarnhaol ar yr ysgolion, mae'r Awdurdod Lleol bellach yn bwriadu cynnig ffederasiwn ffurfiol rhwng y tair ysgol.

Er y bydd pob ysgol yn cadw ei hunaniaeth unigol ei hun o ran enw, diwylliant ac ethos ac yn parhau i reoli ei chyllideb ei hun, mae'r broses hon yn golygu sefydlu corff llywodraethu sengl i lywodraethu'r tair ysgol.

Cyfansoddiad arfaethedig y Corff Llywodraethu sengl newydd

Mae Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 yn datgan bod yn rhaid i gorff llywodraethu ffederal gynnwys o leiaf 15 o lywodraethwyr a dim mwy na 27 o lywodraethwyr. [Nifer mwyaf y llywodraethwyr sy'n gallu bod ar ffederasiwn yw 18 ar gyfer dwy ysgol ac 20 ar gyfer tair ysgol.]

Mae'r tabl isod yn nodi'r niferoedd o bob categori a ganiateir gan y rheoliadau ar gyfer ffedereiddio ysgolion cymunedol ac argymhelliad Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Corff Llywodraethu y ffederasiwn newydd.

Categori Llywodraethwr	Y nifer a ganiateir gan y Rheoliadau	Cynnig yr Awdurdod Lleol (Uchafswm)
Rhiant-lywodraethwyr	Ethol neu benodi o leiaf un rhiant-lywodraethwr, ond dim mwy na dau, ar gyfer pob ysgol sydd wedi'i ffedereiddio, i gynrychioli buddiannau disgyblion cofrestredig yr ysgol honno	6
Athrawon-lywodraethwyr	O leiaf 1 ond dim mwy na 2	2
Staff-lywodraethwyr	O leiaf 1 ond dim mwy na 2	2
Llywodraethwyr Awdurdod Lleol	O leiaf 2 ond dim mwy na 4	4
Llywodraethwyr Cymunedol	O leiaf 2 ond dim mwy na 4	4
Pennaeth(iaid)	Pennaeth neu bennaeth dros dro y ffederasiwn os penodwyd un, neu bennaeth neu bennaeth dros dro pob ysgol yn y ffederasiwn oni fydd y personau hynny yn ymddiswyddo o fod yn llywodraethwr	1
Llywodraethwr Cymunedol Ychwanegol (cynrychiolydd Cyngor Cymuned)	1 (Os yw ysgol yn gwasanaethu ardal y mae dau neu ragor o gynghorau cymuned ar ei chyfer, gall y corff llywodraethu geisio enwebiadau gan un neu fwy o'r cynghorau hynny)	1
Cyfanswm		20

Llywodraethwyr Dros Ben

Drwy sefydlu un corff llywodraethu, efallai y bydd Llywodraethwyr yn pryderu bod y cyfyngiadau ar niferoedd yn golygu na fyddant yn gallu cynnwys yr holl bobl yr hoffent

eu cynnwys. Nid oes yn rhaid i'r corff llywodraethu golli'r arbenigedd a'r bobl hyn a gellid eu defnyddio drwy bwyllgorau.

Mae llawer o'r drafodaeth a'r gwaith yn cael ei wneud ar lefel pwyllgor gan adael i'r corff llywodraethu ganolbwyntio ar ei rôl strategol. Mae hyn yn hynod berthnasol mewn ffederasiwn lle bydd corff llywodraethu yn gyfrifol am reoli mwy nag un ysgol. Er mwyn gwneud hyn yn llwyddiannus bydd angen strwythur pwyllgor cefnogol a dibynadwy ar y llywodraethwyr, sy'n cynnwys llywodraethwyr ac efallai rhai nad ydynt yn llywodraethwyr sydd â'r ysgogiad a'r arbenigedd a'r wybodaeth berthnasol i wneud penderfyniadau ac adrodd yn ôl. Bydd defnyddio cyn-lywodraethwyr o bob un o'r ysgolion fel hyn hefyd yn helpu corff llywodraethu newydd ffederasiwn i gydweithio'n haws.

Gall corff llywodraethu benodi aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr i fynychu cyfarfodydd llawn o'r corff llywodraethu neu i wasanaethu ar un neu fwy o bwyllgorau'r corff llywodraethu. Mae'r diffiniad o aelod nad yw'n llywodraethwr yn eang a gellir penodi pobl sydd am gyfrannu'n benodol at faterion sy'n ymwneud â'u maes arbenigedd nhw (er enghraifft cyllid) yn aelod nad yw'n llywodraethwr.

Nid yw aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr yn llywodraethwyr ac nid ydynt yn cael eu cofnodi yn yr offeryn llywodraethu. Ni chaiff aelodau nad ydynt yn llywodraethwyr bleidleisio mewn cyfarfodydd llawn o'r corff llywodraethu, ond gellir rhoi pleidlais iddynt mewn cyfarfodydd pwyllgor, lle mae'r corff llywodraethu wedi cytuno ar hyn wrth sefydlu cylch gorchwyl y pwyllgor dan sylw.

Arwain a Staffio

Mae Ysgol Gynradd Llangain, Ysgol Gynradd Llansteffan ac Ysgol Gynradd Bancyfelin yn rhannu'r un pennaeth ar hyn o bryd.

Os bydd y cynnig i ffedereiddio yn cael ei weithredu bydd yr ysgolion yn symud i gael eu rheoli gan un Pennaeth Gweithredol.

Bydd y corff llywodraethu ffederal yn gyfrifol am reoli perfformiad y Pennaeth Gweithredol.

Er nad oes bwriad gwneud newidiadau i'r staff, bydd y corff llywodraethu ffederal yn gallu adolygu'r trefniadau staffio gyda'r staff ym mhob sefydliad.

Trefniadau Derbyn

Ni fydd trefniadau derbyn pob ysgol yn newid. Bydd rhieni yn gwneud cais am le i'w plentyn yn yr ysgol o'u dewis, nid yn y ffederasiwn, gan fod pob ysgol yn y ffederasiwn yn ysgol ar wahân. Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer pob ysgol.

Yr Uned Derbyn Disgyblion i Ysgolion,
Yr Adran Addysg a Phlant
Adeilad 2
Parc Dewi Sant
Caerfyrddin,
SA31 3HB
Rhif ffôn: 01267 246449
E-bost: derbyniadau@sirgar.gov.uk

Y Broses Ffedereiddio

Yn unol â chanllawiau "Proses Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru ar gyfer Cyrff Llywodraethu ac Awdurdodau Addysg Lleol", amlinellir proses ffedereiddio Cyngor Sir Caerfyrddin isod:

Cam 1: Yr Awdurdod Lleol yn cynnal trafodaethau cynnar gyda'r ysgolion y mae'n fwriad eu ffedereiddio, a chytuno'n gyffredinol i ymchwilio i opsiynau ffedereiddio.

Cam 2: Yr Awdurdod Lleol yn paratoi Dogfen Ymgynghorol i geisio barn rhanddeiliaid.

Cam 3: Cynigion yn cael eu cyhoeddi, a'r Awdurdod Lleol yn ceisio barn rhanddeiliaid.

Cam 4: Arweinwyr ysgolion, yr Awdurdod Lleol a Chyrff Llywodraethu yn dechrau llunio rolau arwain a strwythurau staffio.

Cam 5: Yr Awdurdod Lleol yn paratoi Adroddiad Ymgynghorol sy'n crynhoi'r ymatebion a gafwyd a sylwadau'r Awdurdod Lleol, ac yn ei gyhoeddi ar ei wefan.

Cam 6: Yr Awdurdod Lleol yn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid ffedereiddio ai peidio, yn cyhoeddi'r penderfyniad ar ei wefan, ac yn hysbysu rhanddeiliaid.

Os penderfynir ffedereiddio:

Cam 7: Un corff llywodraethu yn cyfarfod, a phrosesau proffesiynol yn cael eu halinio.

Cam 8: Pennaeth yn adeiladu trosolwg o effeithiolrwydd y ffederasiwn.

Cam 9: Cyfleoedd ehangach o ran datblygiad proffesiynol yr holl staff.

Mae manylion llawn am bob cam i'w gweld yn nogfen ganllaw [Proses Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru](#).

Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y ddogfen [Proses Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru](#)

Â phwy yr ymgynghorir?

Anfonir y ddogfen hon at y partion canlynol sydd â diddordeb, sef:

Staff (Pennaeth, Staff Addysgu a Staff Ategol)	Disgyblion ym mhob un o'r ysgolion y mae'r cynigion yn ymwneud â nhw
Llywodraethwyr a Rhieni / Gwarcheidwaid y mae'r cynigion yn ymwneud â nhw	Yr holl undebau athrawon a staff cymorth perthnasol
Aelodau Lleol	Cyngor Cymuned

Y Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau ddydd Llun 22 Chwefror 2021 ac yn dod i ben ddydd Sul 4 Ebrill 2021. Gall ymgynghoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig.

Ystyried eich sylwadau

Yn ystod y cyfnod ymgynghori gallwch ofyn cwestiynau a mynegi eich barn drwy ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad isod neu drwy lenwi arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: [AROLWG SNAP](#)

Dylid anfon llythyrau i'r cyfeiriad canlynol erbyn dim hwyrach na ddydd Sul 4 Ebrill 2021: Mr Gareth Morgans, Cyfarwyddwr yr Adran Addysg a Phlant, Adeilad 2, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HB, neu drwy anfon e-bost i: aapma@sirgar.gov.uk.

Sesiwn galw heibio

Oherwydd goblygiadau parhaus y pandemig Coronafeirws, cynhelir y sesiwn galw heibio ar ffurf rithwir drwy Microsoft Teams ar 16 Mawrth 2021 am 4:30pm am gyfnod o ddwy awr. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn addas i chi, gallwn gynnig dulliau cyfathrebu amgen fel e-bost neu alwad ffôn.

Os hoffech ddod i'r sesiwn galw heibio rithwir, cysylltwch â Mr Roger Bowen ar aaprma@sirgar.gov.uk i fynegi eich diddordeb erbyn 12 Mawrth 2021.

Ymgynghori â Disgyblion

Bydd cyfle i ddisgyblion **Ysgol Gynradd Llangain, Ysgol Gynradd Llansteffan ac Ysgol Gynradd Bancyfelin** gymryd rhan yn y broses ymgynghori.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori â'r disgyblion yn rhan o'r adroddiad ymgynghori a gyflwynir i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Adroddiad Ymgynghori

Ar ôl y cyfnod ymgynghori bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r sylwadau a godwyd gan yr ymgynghoreion ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r sylwadau hyn. Hefyd bydd yr adroddiad yn cynnwys manylion am yr ymgynghori a gynhaliwyd â'r disgyblion.

Penderfynu ar y Cynnig

Bydd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant yn penderfynu ar y cynnig. Gall benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu

gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac unrhyw sylwadau sydd wedi dod i law.

Hysbysiad o'r Penderfyniad

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Yr Amserlen Arfaethedig

22 Chwefror 2021	Cyfnod ymgynghori 6 wythnos yn dechrau drwy gyflwyno'r ddogfen ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb.	
4 Ebrill 2021	Y dyddiad cau i'r Adran Addysg a Gwasanaethau Plant gael sylwadau ar y cynnig a diwedd y cyfnod ymgynghori 6 wythnos.	
17 Mai 2021	Bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Gwasanaethau Plant i benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig i ffedereiddio ai peidio.	
	Bydd Bydd corff llywodraethu yn cael ei sefydlu a bydd trefniadau yn cael eu cwblhau.	Na fydd Bydd y 3 ysgol yn parhau i fod yn ysgolion ar wahân.
18 Mai 2021	Ar ôl penderfynu ynghylch y cynnig, rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.	
1 Medi 2021	Rhoi'r ffederasiwn ar waith, os caiff ei gymeradwyo.	

Manteision ac Anfanteision Ffedereiddio

Manteision Ffedereiddio

- Cysondeb o ran methodoleg addysgu a dysgu, yn enwedig ar draws cyfnodau.
- Llai o ostyngiad ym mherfformiad disgyblion pan maent yn pontio.
- Symleiddio polisiau a strwythurau.
- Rhannu arfer da, paratoi deunyddiau ac adnoddau.
- Ehangu'r dewis o gwricwlwm a'r opsiynau i fyfyrwyr wrth i ysgolion ddod ynghyd i ddarparu mynediad i gyrsiau a chyfleusterau ei gilydd, gan arwain at welliannau i ansawdd y dysgu i staff a disgyblion.
- Rhagor o gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff.
- Mwy o gyfle i ddatblygu rheolwyr canol.
- Mae gan ysgolion opsiynau i ddewis strwythur arweinyddiaeth uwch sy'n addas i'w hamgylchiadau, gan arwain at recriwtio staff a phenaethiaid yn haws, yn enwedig os bu anawsterau.
- Cyfleoedd ar gyfer arweinyddiaeth ysgol y tu hwnt i un ysgol.
- Cyfleoedd i greu rolau newydd y gellir eu rhannu ar draws ysgolion
- Gwell cyfleoedd cymdeithasol i ddisgyblion.
- Cyfleoedd i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau ac arbenigedd proffesiynol, yn enwedig lle mae anawsterau ariannol neu niferoedd y disgyblion yn isel, ac i wneud arbedion effeithlonrwydd drwy arbedion maint.
- Meithrin gwybodaeth – mae rhai ysgolion yn rhy fach i fod yn hunangynhaliol fel sefydliadau dysgu effeithiol i'r staff sy'n addysgu ynddynt.
- Ychwanegu capasiti a chefnogi effeithlonrwydd drwy ddarparu arbedion maint ar gyfer cyflawni gweithgareddau allweddol.
- Hyrwyddo lles ehangach myfyrwyr drwy gynnig potensial i ddod â gwasanaethau bugeiliol, iechyd, gyrfaoedd, ieuencid a gwasanaethau eraill at ei gilydd i ddiwallu eu hanghenion cyffredinol.
- Cefnogaeth i ysgolion sy'n cael anawsterau. Gall ysgolion sydd â chryfderau gyfrannu at ddysgu pobl eraill.

- Cefnogi gwella'r ysgolion drwy alluogi ysgolion i ddefnyddio adnoddau ysgolion eraill i fynd i'r afael â phroblemau, rhannu arbenigedd, codi disgwyliadau a diwallu anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion.
- Gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith lle mae gan y pennaeth lefel uchel iawn o ymrwymiad addysgu.
- Posibilrwydd o recriwtio llywodraethwyr yn haws a llai o lefydd gwag ar gyrrff llywodraethu.

Anfanteision Ffedereiddio


- Mwy o lwyth gwaith i lywodraethwyr yn ystod y cyfnod cychwynol a'r flwyddyn gyntaf.
- Posibilrwydd o golli llywodraethwyr profiadol.
- Drwgdybiaeth gychwynol ymhlith llywodraethwyr, rhieni a staff – angen amser i'r ffedereiddio setlo.
- Un pennaeth ddim yn rhannu amser yn deg ymysg ysgolion.

Astudiaeth Achos

Mae ysgolion wedi gallu ffedereiddio ers 2010 gan ddefnyddio'r broses a nodir yn Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir ac Amrywiol Newidiadau (Cymru) 2010 ('Rheoliadau Ffedereiddio 2010'). Ers hynny mae nifer o ffederasiynau llwyddiannus dan arweiniad Corff Llywodraethu wedi'u ffurfio yn Sir Gaerfyrddin.

Yn 2014 bu i'r Rheoliadau Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014 ('rheoliadau 2014') a wnaed o dan Fesur Addysg (Cymru) 2011 ddirymu a disodli Rheoliadau Ffederasiwn 2010, ac maent yn rhoi mecanwaith i'r Awdurdod Lleol ffedereiddio ysgolion.

Mae ffederasiwn 'Ysgolion Carwe, Gwynfryn a Phont-henri' isod sydd dan arweiniad Corff Llywodraethu wedi'i gynnwys fel enghraifft o sut mae ffedereiddio yn Sir Gaerfyrddin yn cefnogi cydweithio agosach ac yn hyrwyddo perthynas waith agosach rhwng ysgolion i wella deilliannau.



Cytunodd Llywodraethwyr Ysgol Carwe, Ysgol Gwynfryn ac Ysgol Pont-henri yn swyddogol i ffedereiddio o 6 Hydref 2012 yn dilyn ymddeoliad Pennaeth Ysgol Gwynfryn.

Wrth sefydlu'r ffederasiwn, nododd y Pennaeth bwysigrwydd cydnabod bod y bartneriaeth rhwng yr ysgolion yn cryfhau yn hytrach na bygwth nodweddion a rhinweddau ysgolion unigol yn y Ffederasiwn; rhywbeth sy'n bryder cyffredin ymysg disgyblion a rhieni.

Roedd llwyddiant y ffederasiwn, oherwydd y cydweithio rhagorol rhwng yr ysgolion, wedi cyfoethogi profiad addysg plant lleol. Mae'r cydweithio rhwng y tair ysgol drwy ffedereiddio wedi galluogi disgyblion i gael profiadau ysgol fawr mewn ysgol gymunedol leol fach. Mae'r rhain yn cynnwys cymryd rhan yng nghystadlaethau'r Urdd, cyngherddau Nadolig, diwrnod mabolgampau, a theithiau ysgol.

Mae'r ysgolion sy'n rhan o'r ffederasiwn hefyd wedi profi llawer o fanteision gan gynnwys:

- Rhannu arferion da
- Ehangu profiadau disgyblion
- Rhannu arbenigedd
- Rhannu llwyth gwaith
- Datblygu tîm arweinyddiaeth
- Diogelu swyddi
- Hyblygrwydd cyllidebol

Cwestiynau Cyffredin

Isod ceir nifer o gwestiynau allweddol a allai fod gan randdeiliaid ynghylch Ffedereiddio. Yr atebion a roddir yw'r rhai sydd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer [Proses Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru](#)

I gael rhestr o gwestiynau ehangach ac atebion, gweler Canllawiau Llywodraeth Cymru.

Beth yw ffederasiwn?
Defnyddir ffedereiddio i ddisgrifio 'partneriaeth ffurfiol' o ysgolion (rhwng dau a chwech) ac mae'n gytundeb cyfreithiol a ffurfiol lle mae ysgolion yn rhannu un corff llywodraethu.
Pam dylai ysgolion Ffedereiddio?
Mae cydweithio drwy un strwythur corff llywodraethu yn galluogi ysgolion i godi safonau a chynnal darpariaeth addysg leol drwy rannu adnoddau, staff, arbenigedd, cyfleusterau, ac arfer gorau. Mae un corff llywodraethu hefyd yn darparu mecanwaith effeithiol ac atebol i ysgolion gyfuno adnoddau, gan gynnwys staff a chyllidebau, rhyddhau capasiti yn yr uwch-dîm rheoli a sicrhau arbedion maint ac arbedion effeithlonrwydd.
Pam mae ffedereiddio wedi dod yn opsiwn i'ch ysgol mwyaf sydyn?
Mae llawer o resymau pam mae ysgolion o bob maint a math yn dymuno ffedereiddio neu pam mae'r Awdurdod Lleol yn dymuno eu ffedereiddio. Ymhlith yr hyn sy'n ysgogi ffedereiddio y mae rhannu adnoddau fel cyllidebau, athrawon ac arbenigedd addysgu, arweinyddiaeth a chyfleusterau ysgolion, dysgu oddi wrth ei gilydd a rhannu arfer da. Yn achos rhai ysgolion, gall gweithio'n agosach mewn ffederasiwn olygu rhannu llwythi gwaith trwm ymhlith y staff tra'n caniatáu i ysgolion barhau i ddarparu cwricwlwm eang sy'n cynnig dewisiadau ac opsiynau gwirioneddol i ddisgyblion, na all ysgolion llai eu darparu gyda llai o staff. Gall ffedereiddio hefyd gynnig cyfleoedd gyrfa i staff nad ydynt ar gael iddynt fel arfer, er enghraifft gweithio mewn ysgol arall yn y ffederasiwn. Gall hyn helpu i recriwtio athrawon newydd â chymwysterau uchel i'r ysgol. Mae rhai ysgolion hefyd yn wynebu anawsterau wrth recriwtio penaethiaid da, ac mae ffedereiddio yn caniatáu i ysgolion fabwysiadu atebion mwy creadigol i benodi arweinwyr.
Pa fanteision y mae Ffedereiddio yn eu cynnig i ddisgyblion?
Gall ffedereiddio roi bod i lawer o fanteision, ond bydd y rhain yn amrywio yn dibynnu ar ffocws a phwrpas y ffederasiwn. Yn gyffredinol, er y dylai ffedereiddio gynnig cyfleoedd i ddisgyblion o bob oed a gallu gyfarfod a gweithio fel rhan o grŵp mwy, gall fod yn arbennig o fuddiol i ddisgyblion hŷn, mwy abl, mewn ysgolion bach. Mae'r manteision eraill yn cynnwys disgyblion yn gallu cael mynediad at addysgu arbenigol, cyfleoedd cymdeithasol ac addysgol mwy cyson a strwythuredig, chwaraeon tîm, arbenigedd ehangach yn y cwricwlwm a dewis ehangach o weithgareddau a chlybiau tu hwnt i'r cwricwlwm ac ar ôl oriau ysgol.
Sut mae'r Ffedereiddio yn mynd i weithio?
Bydd ffederasiynau'n gweithio mewn gwahanol ffyrdd. Bydd y modd y caiff ffederasiwn ei strwythuro a'i weithredu yn cael ei benderfynu gan y corff llywodraethu a'r penaethiaid neu un pennaeth (a'r esgobaeth lle mae ysgolion ffydd wedi'u cynnwys). Y bobl hyn sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau bod y gwaith a'r trefniadau ffedereiddio yn cyfateb i anghenion yr holl ysgolion

perthnasol. Dylai fod gan bob ffederasiwn gynllun gweithredu manwl a strwythur staffio cytûn sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer cynllunio manylach a threfniadaeth a rheolaeth yr ysgolion o ddydd i ddydd.

A yw'r athrawon a'r disgyblion yn symud o ysgol i ysgol?

Mae'n fwyaf tebygol mai'r staff fydd yn symud rhwng ysgolion a bydd y plant, ar y cyfan, yn aros yn eu hysgol gofrestredig. Fodd bynnag, efallai y bydd cyfleoedd i'r plant o wahanol ysgolion weithio gyda'i gilydd ar brosiectau a digwyddiadau arbennig.

Ai ymgais i arbed arian yw ffedereiddio?

Na. Y diben yw cael ysgolion i gyfuno adnoddau er mwyn gwella perfformiad, codi safonau cyrhaeddiad a chyflawni mwy i'r plant, boed hynny drwy roi mynediad at gyfleoedd a chyfleusterau na fyddai'r plant fel arfer yn gallu eu cael, neu gyllido ar y cyd, er enghraifft, athro drama neu athrawon cymorth.

A yw ffedereiddio'n golygu y bydd ein hysgol yn cael llai o arian gan yr ALI?

Na. Ni fydd ffedereiddio'n effeithio ar sut y cyfrifir cyllideb ysgol unigol - dylai pob ysgol yn y ffederasiwn barhau i gael ei chyllideb ei hun ar sail nifer y disgyblion cofrestredig yn yr ysgol ynghyd ag unrhyw ffactorau eraill. Fodd bynnag, bydd modd i'r ysgolion gyfuno neu rannu eu cyllidebau. Er enghraifft, pe bai'r ysgolion yn dymuno cyflogi athro drama neu brynu neu uwchraddio offer chwaraeon, byddai pob un ohonynt yn cyfrannu cyfran o'r costau o'u cyllideb.

Dylai corff llywodraethu ffederasiwn fod mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau strategol ar y defnydd o'i adnoddau gan gynnwys cyllidebau, staff a chyfleusterau. Bydd angen i bob ysgol gadw trywydd archwilio clir a chyfrifon ar gyfer eu gwariant ar y gyllideb.

Beth yw manteision ariannol ffedereiddio?

Gall ffederasiynau gynyddu capasiti ysgolion y ffederasiwn er mwyn cyflawni safonau uwch.

Mae rhai o'r manteision yn cynnwys:

- ffordd fwy cost-effeithiol o gynyddu cyfleoedd addysgu arbenigol (os oes angen), hawl i'r cwricwlwm a gweithgareddau cwricwlaidd estynedig ar ôl ysgol a chlybiau y tu allan i oriau ysgol
- rhannu costau prynu nwyddau a chyfleusterau ac ati.
- prynu er mwyn sicrhau arbedion maint ac osgoi dyblygu
- arbed amser o ran cynllunio'r cwricwlwm a chynllunio strategol ac amser gweinyddol
- gallu cyfuno adnoddau er mwyn dyfarnu cyflogau uwch a recriwtio rhagor

A fydd fy ysgol yn colli ei hunaniaeth mewn ffederasiwn?

Ni fydd ysgolion mewn ffederasiwn yn colli eu hunaniaeth unigol er y byddant yn rhannu corff llywodraethu sengl. Mae'r ysgolion yn cadw eu statws cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt eu dyraniadau cyllidebol eu hunain a bydd pob ysgol unigol yn cael ei harolygu gan Estyn. Bydd yr ysgolion hefyd yn aros yn eu cymuned ac yn cadw eu cymeriad, eu henw, eu hethos a'u gwisg ysgol eu hunain. Er y bydd pob ysgol yn derbyn, ac yn gorfod rhoi cyfrif, am ei chyllideb benodol ei hun, bydd cyfle, drwy'r corff llywodraethu sengl, i ddefnyddio cyllidebau cyfun ar draws yr ysgolion yn y ffederasiwn. Mae ffedereiddio yn gweithio ar y sail bod gan bob ysgol ei chryfderau a'i manteision penodol ei hun, boed yn gyfleusterau, yn staff neu'n adnoddau.

Beth sy'n digwydd i staff mewn ffederasiwn? A fydd eu Hamodau Gwasanaeth yn newid?

Mewn ffederasiwn, byddai pob aelod o staff wedi'i gyflogi yn unol â'r un amodau gwasanaeth â'r rhai presennol a chan yr un cyflogwr. Ni fydd newid i gyflogwr y staff o dan y contract cyflogaeth. Yn achos ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir, yr awdurdod lleol yw'r cyflogwr o dan y contract cyflogaeth er y bydd corff llywodraethu'r ffederasiwn yn dal yn gyfrifol am rai swyddogaethau staffio h.y. achwyniadau staff, galluogrwydd, dileu swydd, disgyblu staff, materion diswyddo a phenodiadau. Y corff llywodraethu yw'r cyflogwr o dan y contract cyflogaeth ar gyfer staff mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgol sefydledig.

Dylai cynllunio strategol ac ariannol cyfunol olygu y gellir diogelu swyddi'n well mewn unrhyw gyfnod cyfunol o gwtogi, ac y gellir defnyddio staff arbenigol yn y ffordd orau bosibl, gan gydnabod bod sgiliau a gwybodaeth arbenigol gan yr holl staff cymorth ac addysgu. Byddai staff yn gallu dysgu oddi wrth ei gilydd o fewn dull cydlynol er mwyn darparu cymunedau dysgu proffesiynol sy'n defnyddio data a'r Model Cenedlaethol i ganolbwyntio ar welliannau i ysgolion sy'n cysylltu â blaenoriaethau cenedlaethol a'u cynlluniau datblygu ysgol.

Byddai corff llywodraethu ffederasiwn hefyd yn gallu penodi staff newydd i weithio ym mhob un o'r ysgolion sy'n rhan o'r ffederasiwn. Gallai hyn gynnwys penodi un pennaeth sy'n gyfrifol am yr holl ysgolion yn y ffederasiwn, neu benodi Bwrsar neu berson â sgiliau rheoli ariannol a/neu sgiliau rheoli busnes i oruchwylio agweddau nad ydynt yn ymwneud ag addysgu busnes y ffederasiwn.

A allwn newid enw'r ysgol neu roi'r un enw i bob ysgol yn y ffederasiwn?

Un o brif sbardunau a manteision ffedereiddio yw nad yw ysgolion yn colli eu hunigoliaeth, eu henw a'u hunaniaeth a'u bod yn parhau fel sefydliadau ar wahân. Bydd enwau'r holl ysgolion yn y ffederasiwn yn ymddangos ar yr offeryn llywodraethu newydd, yn ogystal ag enw'r ffederasiwn. Nodir y broses ar gyfer diwygio'r offeryn llywodraethu a newid manylion megis enwau'r ysgolion yn Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005. Dylai'r ALI a'r corff llywodraethu ddod i gytundeb ar y newidiadau arfaethedig. Os na allant wneud hynny, bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan yr ALI, a fydd am sicrhau nad yw unrhyw newidiadau'n gamarweiniol.

Rhaid i bob ysgol mewn ffederasiwn gadw ei rhif cyfeirnod a'i chyllideb unigol, a gallai fynd yn eithaf cymhleth a dryslyd pe bai'r holl ysgolion yn penderfynu newid eu henwau a mabwysiadu un enw pan mae'n rhaid iddynt fod yn atebol am gyllidebau ar wahân.